

Presennol:	Huw Jones Carol Bell Hugh Hesketh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Dafydd Rhys Elin Morris Gwyn Williams Phil Williams Bethan C. Williams David Bryant Garffild Lloyd Lewis	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Datblygu Masnachol) (eitem 5) (Cyfarwyddwr Adleoli a Phrosiectau) (eitem 5)
Hefyd yn bresennol:	Nigel Beaney Geraint James	Thinkmonkey (eitem 5) Thinkmonkey (eitem 5)
Ymddiheuriadau:	John Davies Guto Harri	(Prif Aelod Anweithredol yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)

1. **Gair o groeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai newid yn nhrefn agenda'r cyfarfod er mwyn derbyn yr adroddiadau am weithgareddau'r Grŵp Masnachol yn gyntaf.

2. **Cofnodion cyfarfod 399 (08.06.16) a Materion yn Codi** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 399 (a gynhaliwyd ar 08.06.16).

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.

Materion yn codi o'r Cofnodion

5.3.3. [Crynodeb: Trafodwyd y gwyllo i gynnyrch S4C ar YouTube a'r angen i barhau i fonitro defnydd y gwasanaeth dros gyfnod estynedig.]

Pwerau benthyg

Esboniwyd fod swyddogion yn parhau i drafod gyda swyddogion DCMS. Roedd Pwyllgor Cyllid DCMS yn cyfarfod y mis hwn a gobeithir y byddant yn ystyried cais S4C am eglurder parthed y pwerau benthyg.

Perthynas gyda'r BBC o 2017

Esboniwyd y byddai trafodaethau gyda'r BBC yn parhau wedi i'r BBC ac S4C gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol.

Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol

Nodwyd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi ei chyhoeddi a'i gosod gerbron y Senedd. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r Adroddiad ac i berfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol.

Cwynion Cyfredol

[Crynodeb: Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar gwyn gyfredol a'r modd mae'r Pwyllgor yn delio â'r cwyn.]

Y Prosiect Cydleoli gyda'r BBC

Nodwyd fod drafft cyntaf o'r Cytundeb ar gyfer Gwasanaethau Technegol (y "TSA") wedi ei ddarparu gan y BBC. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod erbyn mis Hydref.

3. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau

Cyflwynwyd diweddariad y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Nodwyd yr angen i gofnodi dyddiadau cyflawni yn erbyn pob pwynt gweithredu, ac i gytuno ar y dyddiadau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

Dylai'r pwynt gweithredu parthed y Porth Pobl Ifanc nodi y bydd y porth yn lansio erbyn fis Mawrth 2017.

4 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5. Adroddiad Cynnydd – Loteri Cymru

Croesawodd y Cadeirydd NB, GJ a DB i'r cyfarfod.

Cyflwynodd EM adroddiad cynnydd parthed Loteri Cymru i'r Awdurdod. Esboniodd fod y Bwrdd a swyddogion y Grŵp Masnachol wedi bod yn datblygu'r prosiect ers sawl blwyddyn.

[Crynodeb: Esboniwyd mai amcan Loteri Cymru yw lansio loteri genedlaethol yng Nghymru ac fe fydd canlyniadau'r loteri yn cael eu cyhoeddi ar S4C bob wythnos. Gall y cynllun godi arian ar gyfer achosion da dros ddeng mlynedd ac incwm posibl ar gyfer S4C Masnachol.

Mae swyddogion wedi bod yn cyd-weithio gydag Ymddiriedolaeth William Salisbury a'r gwaith ymchwil trylwyr wedi cynnwys comisiynu arbenigwyr

ar gynlluniau loteri. Roedd y Bwrdd Masnachol wedi argymhell yn ei gyfarfod busnes ddoe y dylid parhau gyda'r cynllun gan anelu i lansio ym mis Mawrth 2017.

Mae angen canllawiau clir yn eu lle ar gyfer ymgeisio ar gyfer a dosrannu arian o'r loteri ac mae'r Bwrdd Masnachol yn ymwybodol iawn o'r angen i reoli risgiau'r prosiect. Er mwyn sicrhau craffu rheolaidd o'r cynllun bydd is-bwyllgor o'r Bwrdd Masnachol yn cwrdd yn rheolaidd i dderbyn adroddiadau cynnydd gyda dau aelod o'r Bwrdd yn cynrychioli S4C Masnachol.

Yn dilyn trafodaeth cymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhelliad i barhau gyda chynllun Loteri Cymru.]

Penderfynodd yr Awdurdod:

(i) y dylid cyflwyno cylch gorchwyl drafft y Pwyllgor fydd yn dosrannu grantiau ar ran y cynllun loteri i'r Awdurdod er gwybodaeth.

(ii) y byddai HHE ac EM yn datblygu cofrestr risg ar gyfer monitro cynnydd y prosiect ar ran y Bwrdd Masnachol.

(iii) y byddai'r Awdurdod yn derbyn adroddiad cynnydd parthed Loteri Cymru bob deufis.

Awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Masnachol ystyried sicrhau 'opsiwn' ar gyfer sicrhau hawliau darlledu'r cynllun yn dilyn y cyfnod 10 mlynedd wreiddiol.

6. Diweddariad ar y Strategaeth Fasnachol

Cyflwynodd EM a DB ddiweddariad ar weithredu'r Strategaeth Fasnachol.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at yr ystod eang o weithgareddau masnachol S4C gan gynnwys:

- gwerthiant hysbysebion a nawdd gan Sky Media,
- gwerthiant marsiandiaeth megis Cyw,
- partneriaethau cyhoeddi,
- buddsoddiadau ecwiti,
- prosiectau cyd-gynhyrchu a
- buddsoddiadau yng nghronfa Sarasin LLP.

Cafwyd adroddiad byr ar nifer ohonynt gan gynnwys y buddsoddiadau ecwiti. Eglurodd CB fod llawer o waith datblygu wedi ei gyflawni gan y Bwrdd Masnachol er mwyn creu a mireinio'r strategaeth fasnachol.]

Penderfynwyd y byddai'r Awdurdod yn derbyn adroddiad ar weithgareddau'r Bwrdd Masnachol 2 waith y flwyddyn, gyda chrynodeb o bob buddsoddiad neu brosiect newydd i'w cyflwyno yn ôl y galw.

7. Cofnodion Cyfarfod y Diwrnod i Ffwrdd - 09 Mehefin 2016.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Diwrnod i Ffwrdd (a gynhaliwyd ar 09.06.16).

[Crynodeb: Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion gan ymgorffori mân

newidiadau.]

Datblygu gweledigaeth S4C

[Crynodeb: Fel rhan o wireddu gweledigaeth S4C cynigir cynllun cytundebau rhag-archebu i gynnig sefydlogrwydd. Nodwyd y byddai 55% o'r gyllideb cynnwys yn parhau i fod ar gael ar gyfer comisiynu tu allan i'r drefn rhag-archebu. Cyfeiriwyd hefyd at y drafodaeth am rôl ac effaith S4C o ran datblygu economaidd a chreu a chynnal swyddi.]

Penderfynwyd hefyd fod angen sicrhau proses effeithiol o drafodaeth ac adborth yn dilyn darllediad – rhwng uwchswyddogion a chomisiynwyr, a rhwng comisiynwyr a chynhyrchwyr - ynglŷn â chyfraniad pob rhaglen at gyflawni amcanion y Strategaeth Cynnwys ac ynglŷn â sut y gwnaeth perfformiad gymharu â'r amcanion gwreiddiol wrth gomisiynu

Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried dull priodol o roi gwybodaeth i'r Awdurdod ynglŷn â sut roedd y drefn hon yn cael ei gweithredu.

Nodwyd y dylai'r Pwyllgor Cynnwys ystyried sut i fonitro cyflawniad hyn, gan ystyried yn benodol pa elfennau o gynnyrch y cytundebau rhag-archebu sy'n arddangos uchelgais neu sy'n cyfrannu at uchelfannau S4C a pha ganran o gynnyrch o'r fath sy'n dod o gytundebau tu allan i'r drefn rhag-archebu.

8. Mesuryddion Perfformiad

Nodwyd mai'r bwriad yw cyflwyno argymhellion ar gyfer sut i fesur ac adrodd ar wyllo cyfun ar-lein ac ar deledu ym mis Hydref.

Cyfeiriwyd at ffrwyth y prosiect Adnabod y Gynulleidfa a gynhaliwyd yn 2015 a holwyd sut fydd y tîm comisiynu yn defnyddio canfyddiadau'r prosiect wrth ddatblygu a gweithredu'r strategaeth cynnwys.

Nodwyd y bydd angen gallu dangos sut mae canfyddiadau'r prosiect yn dylanwadu ar y strategaeth cynnwys a sut i fesur ardrawiad y prosiect o ran cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd y gynulleidfa o'r gwasanaeth. Wrth drafod strategaeth ar gyfer y dyfodol, byddai disgwyl i gasgliadau'r prosiect (e.e. ysgafnhau'r arlwy; cyrraedd carfannau penodol o'r gynulleidfa), a'r camau a gymerwyd yn eu sgil, gael eu tracio a bod yn destun adrodd yn ôl.

Nodwyd y bydd y gwaith o ddatblygu dealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa'n ddefnyddiol wrth baratoi naratif S4C ar gyfer Adolygiad 2017.

9. Asesiad Perfformiad y Strategaeth Cynnwys 2016-17

Cyflwynodd DRh asesiad o berfformiad y Strategaeth Cynnwys yn ystod 2016-17.

[Crynodeb: Trafodwyd rhai materion yn deillio o'r asesiad gan gynnwys patrymau gwyllo'r gynulleidfa, effaith slot penodol ar berfformiad a'r manteision ac anfanteision o dargedu rhaglenni at un parth yn arbennig. Eglurodd y bydd rygbi yn dychwelyd i nos Sadwrn yn yr Hydref.]

Esboniwyd mai hwn yw'r cyfarfod olaf pryd y bydd DRh yn cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd ar ran yr Awdurdod am ei wasanaeth diflino i S4C dros y pedair blynedd ddiwethaf ac am lunio arlwy y gellid bod yn falch ohono.

Diolchodd DRh am y cyfle a'r gefnogaeth yr oedd wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod, a nododd ei bod yn anrhydedd i fod yn Gyfarwyddwr Cynnwys S4C. Dymunodd yn dda i'r Awdurdod a'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

10. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a nodwyd fod nifer o'r pynciau yn ei adroddiad yn cael eu trafod yng ngweddill agenda'r cyfarfod hwn.

11. **Diweddariad y Prosiect Adleoli/Canolfan yr Egin**

Cyflwynodd GLL ddiweddariad parthed y cynlluniau i adleoli i Ganolfan yr Egin yng Nghaerfyrddin.

[Crynodeb: Esboniodd fod cais cynllunio yn cael ei ddatblygu gan PDDS a'r penseiri i'w gyflwyno i'r Cyngor. Holwyd am frandio S4C ar yr adeilad ac eglurodd GLL bydd brand S4C yn weladwy iawn. Roedd asesiadau technegol wedi eu cynnal ar y safle ac nid oedd dim materion wedi eu canfod i effeithio ar y prosiect.]

Ariannu cynllun yr Egin

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am sefyllfa ariannu cynllun yr Egin. Penderfynwyd y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Awdurdod maes o law.]

Adleoli - Proses ymgynghori gyda staff

[Crynodeb: Esboniodd GLL fod BECTU wedi penderfynu cynnal proses ar wahân ar gyfer eu haelodau. Bwriad S4C yw cynnal trafodaeth unigol gyda phob un o'r 55 aelod o staff a effeithir gan y cynllun. Bydd disgwyl iddynt ymrwmo i adleoli ai peidio erbyn Mawrth 2017.]

12. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 30 Mehefin**

Cyflwynodd MWJ adroddiad o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 30 Mehefin.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i dderbyn cyflwyniad a chynnal trafodaeth gyda Helen Prosser o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i ystyried y ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr, i ystyried Polisi Ffilm S4C a pherfformiad Pobol y Cwm.

Darpariaeth ar gyfer Dysgwyr, gan gynnwys cyflwyniad gan Helen Prosser, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Ymhlith y materion a drafodwyd, roedd casgliadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd y llynedd i farn dysgwyr am y gwasanaeth i ddysgwyr Dal Ati.

Cyflwynodd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Strategol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wybodaeth am rôl a blaenoriaethau'r Ganolfan newydd a'u gobeithion ar gyfer cydweithio gydag S4C a phartneriaid eraill yn y dyfodol.

Polisi Ffilm S4C

[Crynodeb: Cyflwynwyd papur trafod gan DRh a GML a chafwyd

trafodaeth fywiog ar rôl ffilm o fewn y Strategaeth Cynnwys.]

Pobol y Cwm

[Crynodeb: Cafwyd cyflwyniad am berfformiad Pobol y Cwm a nodwyd cynlluniau a blaenoriaethau'r tîm cynhyrchu newydd.]

Esboniwyd fod y Pwyllgor Cynnwys wedi ystyried sut i fireinio'u dulliau o graffu perfformiad y gwasanaeth a nodwyd y bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn cael ei addasu er mwyn galluogi'r Pwyllgor i dderbyn a chraffu'r adroddiadau Dadansoddi a Chynnwys Chwarterol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Awdurdod.

Penderfynwyd y bydd yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi chwarterol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod.

13. **Adroddiad Ariannol – Chwarter 1, 2016-17**

Cyflwynodd ShW ddiweddariad ar faterion ariannol S4C yn ystod chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol gyfredol er gwybodaeth i'r Awdurdod.

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth a nodwyd nad oedd cwynion wedi eu derbyn gan yr Adran Gyfathrebu ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

[Crynodeb: Cafwyd diweddariad ar un gwyn gyfredol.]

15. **Diweddariad Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2016-17**

Cyflwynwyd diweddariad Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2016-17 i'r Awdurdod er gwybodaeth.

Nodwyd y byddai dyddiadau cyfarfodydd 2017 yn cael eu darparu i'r Aelodau dros yr haf, a bydd y Rhaglen Waith yn cael ei ddiweddarau er mwyn galluogi'r Pwyllgor Cynnwys i dderbyn yr adroddiadau chwarterol Cynnwys a Dadansoddi cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Awdurdod.

16. **Rhaglenni'r Mis Aeth Heibio**

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Nodwyd y cafodd cefnogaeth S4C i'r tîm pêl-droed a'u llwyddiant yn Ffrainc ei werthfawrogi gan y gynulleidfa.]

Unrhyw Fater Arall

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 8 Medi 2016